# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

**RHAN 2**

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**PENNOD 4**

OSGOI A DATRYS ANGHYTUNDEBAU

*Apelau a cheisiadau i'r Tribiwnlys*

**75 Rheoliadau ynghylch y weithdrefn**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) cychwyn apêl neu gais o dan y Rhan hon;

(b) trafodion Tribiwnlys Addysg Cymru ar apêl neu gais o dan y Rhan hon.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) gynnwys darpariaeth—

(a) o ran y cyfnod y mae apelau neu geisiadau i gael eu cychwyn ynddo a'r dull ar gyfer cychwyn apelau neu geisiadau;

(b) pan fo awdurdodaeth y Tribiwnlys yn cael ei harfer gan fwy nag un tribiwnlys—

(i) ar gyfer penderfynu pa dribiwnlys sydd i wrando ar unrhyw apêl neu gais, a

(ii) ar gyfer trosglwyddo trafodion o un tribiwnlys i dribiwnlys arall;

(c) ar gyfer galluogi i unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â materion sy'n rhagarweiniol i apêl neu gais neu faterion sy'n gysylltiedig ag apêl neu gais gael eu cyflawni gan y Llywydd neu gan y cadeirydd cyfreithiol;

(d) i wrandawiadau gael eu cynnal yn absenoldeb aelod ac eithrio'r cadeirydd cyfreithiol;
(e) o ran y personau a gaiff ymddangos ar ran y partïon;
(f) ar gyfer rhoi unrhyw hawliau o ran datgelu neu arolygu dogfennau neu o ran manylion pellach y caniateir i'r llys sirol eu rhoi;
(g) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau fod yn bresennol i roi tystiolaeth a dangos dogfennau;
(h) ar gyfer awdurdodi i lwon gael eu gweinyddu ar gyfer tystion;
(i) ar gyfer dyfarnu ar apelau neu geisiadau heb wrandawiad o dan amgylchiadau rhagnodedig;
(j) o ran tynnu apelau neu geisiadau yn ôl;
(k) o ran dyfarnu costau neu dreuliau;
(l) ar gyfer asesu neu setlo fel arall unrhyw gostau neu dreuliau (ac, yn benodol, ar gyfer galluogi i gostau neu dreuliau o'r fath gael eu hasesu yn y llys sirol);
(m) ar gyfer cofrestru penderfyniadau a gorchmynion a chael prawf ohonynt;
(n) ar gyfer galluogi'r Tribiwnlys i adolygu ei benderfyniadau, neu i ddirymu neu amrywio ei orchmynion, o dan amgylchiadau rhagnodedig;
(o) ar gyfer galluogi'r Tribiwnlys i atal trafodion;
(p) ar gyfer ychwanegu ac amnewid partïon;
(q) ar gyfer galluogi delio ag apelau neu geisiadau gan bersonau gwahanol gyda'i gilydd;
(r) i apêl neu gais o dan y Rhan hon gael ei gwrando neu ei wrando, o dan amgylchiadau a ragnodir yn y rheoliadau, gyda hawliad o dan Bennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15).

(3) Rhaid i drafodion gerbron y Tribiwnlys gael eu cynnal yn breifat, ac eithrio o dan amgylchiadau rhagnodedig.

(4) Nid yw Rhan 1 o Ddeddf Cymrodeddu 1996 (p. 23) yn gymwys i unrhyw drafodion gerbron y Tribiwnlys, ond caiff rheoliadau wneud darpariaeth sy'n cyfateb i unrhyw ddarpariaeth yn y Rhan honno.